Dŵr Cymru Welsh Water

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

Cydlynydd Ymgynghori,
Defra, 2nd Floor,
Foss House,
Kings Pool
1-2 Peasholme Green
Caerfrog
YO1 7PX

wwconsultation@defra.gov.uk

20 Tachwedd 2023

Annwyl Syr/Madam,

**Ymgynghoriad ar y cynnig i wahardd cynhyrchu, cyflenwi a gwerthu weips sy'n cynnwys plastig yn y DU**

Diolch i chi am ymgynghori ar y cynnig uchod.

Daw'r sylwadau hyn gan Ddŵr Cymru Cyfyngedig, yr ymgymerydd dŵr a charthffosaeth statudol sy'n cyflenwi dros dair miliwn o bobl yng Nghymru a rhai rhannau cyfagos o Loegr. Rydyn ni ym mherchnogaeth Glas Cymru, cwmni un pwrpas nid-er-elw heb unrhyw gyfranddalwyr. Rydyn ni'n darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ar gyfer ein cwsmeriaid trwy gyflenwi eu dŵr yfed, ac yn cludo'u dŵr gwastraff i ffwrdd wedyn a delio ag ef mewn ffordd gynaliadwy. Trwy hyn, rydyn ni'n gwneud cyfraniad pwysig at iechyd y cyhoedd ac at ddiogelu amgylchedd Cymru. Mae ein gwasanaethau'n hanfodol i ddatblygiad economaidd cynaliadwy hefyd.

Rydyn ni'n gefnogol iawn o'r cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad i gyflwyno gwaharddiad ar gynhyrchu, cyflenwi a gwerthu weips sy'n cynnwys plastig. Yn sgil pleidlais YouGov, rydyn ni'n gwybod bod 84% o gwsmeriaid Dŵr Cymru'n credu y dylid gwahardd weips sy'n cynnwys plastig. Yn ogystal, wedi trafod y mater ag amrywiaeth eang o gyrff anllywodraethol yma yng Nghymru, rydyn ni'n gwybod fod y cyrff yma'n unfryd yn eu cefnogaeth dros waharddiad o'r fath. Byddem yn eich cyfeirio hefyd at y data a gasglodd Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'w hymgynghoriad nhw o ran a ddylid ychwanegu weips at y rhestr o blastigion untro y dylid eu gwahardd - lle gwelwyd cefnogaeth lethol eto am waharddiad o'r fath o du'r cyhoedd.

Nid oes unrhyw amheuaeth y bydd gwaharddiad yn gam cadarnhaol wrth leihau effaith weips ar yr amgylchedd, nid cymaint o ran y ffaith na fyddant yn ychwanegu microblastigion at yr amgylchedd mwyach, naill ai'n uniongyrchol neu gan ddefnyddio ein hasedau fel cyfrwng, ond o ran nifer y digwyddiadau llygru sy'n digwydd oherwydd tagfeydd mewn pibellau. Rydyn ni'n gwybod bod llawer o adwerthwyr eisoes wedi dileu plastigion o'u weips, ond mae weips yn dal i achosi problemau sylweddol ar ein rhwydwaith, ac yn gallu achosi llygredd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol am eu bod yn dueddol o gael eu dylunio i beidio â dadelfennu'n rhwydd, waeth a ydyn nhw'n defnyddio plastigion neu ddewisiadau di-blastig eraill.

Rydyn ni'n delio â bron i 2000 o dagfeydd mewn carthffosydd y mis, a hynny ar gost o dros £7 miliwn y flwyddyn. Ac fel rydym ni'n ei deall hi, nid yw hyn yn beth anarferol i gwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth ar draws y DU. Gellir priodoli achos y tagfeydd hyn i raddau helaeth i'r hyn rydyn ni'n ei alw yn 'cam-drin carthffosydd'. Gall cam-drin gynnwys cael gwared ar fraster, olew a saim mewn ffyrdd amhriodol ac achosion eraill, a nodwyd bod tua 30% o'r tagfeydd yn cael eu hachosi gan weips yn uniongyrchol. Dylid nodi hefyd bod weips yn ffactor yn y mwyafrif o'r tagfeydd (80-90%).

Os nad yw'r weips yn achosi bloc, yna maen nhw'n ffeindio'u ffordd i'r Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff lle mae angen eu sgrinio allan cyn dechrau'r broses o drin y dŵr gwastraff. Mae tynnu'r rhain yn gostus yn nhermau ynni a charbon,

ac ar ôl eu gwahanu, mae'r weips yn mynd ymlaen i gael eu llosgi'n ulw ar gost o ryw £1m y flwyddyn i'n cwsmeriaid. Gallai'r rhan fwyaf o'r buddsoddiad yma gael ei ddefnyddio er budd yr amgylchedd neu fel y byddai ein cwsmeriaid yn dymuno fel arall.

Rydyn ni'n ymwybodol iawn fod ein cwsmeriaid yn ffeindio cynnyrch o'r fath yn hwylus, ac er mwyn lleihau nifer y weips sy'n cael eu gwaredu mewn ffordd amhriodol fel hyn, mae Water UK, ein cymdeithas fasnach, wedi datblygu ymgyrch o'r enw 'Bin the Wipe'. Rydyn ni'n hapus i nodi y bydd Defra'n cefnogi ymgyrch 'Bin the Wipe' Water UK, ac y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi ymgyrchoedd y diwydiant mewn perthynas â fflysio weips a phethau amhriodol eraill. Hyd yn oed os yw weips sy'n cynnwys plastigion yn cael eu gwahardd, byddem yn annog Defra a Llywodraeth Cymru i barhau i gefnogi ymgyrchoedd o'r fath, am y bydd weips sy'n cael eu gwneud o ddeunyddiau heblaw plastig yn parhau i gael eu gwerthu ac, heb os, yn parhau i flocio ein carthffosydd ac achosi llygredd.

Ar lefel cwmni, enw ein hymgyrch gyfredol yw 'Stop Cyn Creu Bloc'. Mae'n clustnodi'r eitemau, gan gynnwys weips, sydd fwyaf cyffredin am flocio pibellau, ac yn annog y cwsmeriaid i beidio â'u fflysio. Rydyn ni'n hwyluso llawer o ymweliadau addysgol gan ysgolion hefyd, lle'r ydyn ni'n trafod beth sy'n cael mynd i lawr y tŷ bach, a beth sydd ddim. Yn ddiweddar, fe ddechreuon ni dreial i hyrwyddo'r defnydd o weips y gellir eu hailddefnyddio mewn ardal benodol lle mae crynodiad o dagfeydd oherwydd weips. Gellir golchi'r weips amgen yma, eu sychu a'u defnyddio eto. Cafwyd croeso i'r syniad ar y cyfan, gyda chwsmeriaid yn cefnogi'r fenter. Rydyn ni'n gobeithio y bydd darparu dewis amgen y gellir ei ailddefnyddio, ac a ddylai fod yn rhy fawr i'w fflysio, hybu rhywfaint o newid mewn ymddygiad, neu o leiaf cychwyn sgwrs am gam-drin carthffosydd. Rydyn ni'n monitro'r ardal yn ofalus am unrhyw ostyngiad mewn galwadau am dagfeydd, a newidiadau o ran nifer y weips y mae angen eu codi wrth sgrinio. Er y gallai'r camau hyn fod yn rhannol lwyddiannus, er gwaethaf ein holl ymdrechion, nid ydynt wedi cyflawni'r newid mewn ymddygiad rydyn ni am ei weld hyd yn hyn.

Os bydd y gwaharddiad yn llwyddiannus, dylid gosod camau ar waith hefyd i sicrhau bod weips yn cael eu labelu'n glir ac mewn man amlwg ar flaen y pecyn er mwyn dangos fod angen cael gwared arnynt mewn ffordd briodol, a hynny er mwyn lleihau'r posibilrwydd fod pobl yn credu eu bod yn ddiogel i'w fflysio.

I grynhoi, rydyn ni'n cefnogi'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad, ond hoffem bwysleisio'n gadarn fod yn rhaid i'r holl randdeiliaid gydweithio i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch sut i waredu weips mewn ffordd briodol – y rhai plastig a'r rhai amgen – er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a'r gost i'n cwsmeriaid. Dim ond y tri P (pi-pi, pŵ a phapur) ddylai gael eu fflysio i'r tŷ bach.

Diolch i chi am y cyfle i gyflwyno sylwadau ar y pwnc pwysig yma, os oes unrhyw gwestiynau neu sylwadau pellach gennych, byddwn yn hapus i gyfarfod â chi.

Yn gywir,



Tony Harrington
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
**Dŵr Cymru Welsh Water**